Atodiad A

## YSGOLION YR 21AIN GANRIF









## ADRODDIAD YMGYNGHORI

**YMGYNGHORIAD AR GYNNIG I SEFYDLU YSGOL GYNRADD CYFRWNG CYMRAEG NEWYDD AR GYFER PLANT 3 I 11 OED YN RHAN O DDATBLYGIAD TAI LLANILID A'R CYNNIG I NEWID CYFRWNG IAITH YSGOL GYNRADD DOLAU O YSGOL SYDD Â DWY FFRWD IAITH I YSGOL CYFRWNG SAESNEG.**

Mae'r Adroddiad Ymgynghori a'r Atodiadau hefyd ar gael ar dudalen 'Dod yn rhan o bethau' ar wefan y Cyngor.

RHONDDA CYNON TAF

## Tabl Cynnwys


| **Cynnwys** | | **Tudalen** |
|---|---|---|
| 1. | Y Cynnig | 2 |
| 2. | Nod yr Adroddiad Ymgynghori | 2 |
| 3. | Gyda phwy rydyn ni wedi ymgynghori? | 2 |
| 4. | Y Broses Ymgynghori | 3 |
| 5. | Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad | 4 |
| 6. | Ymateb Estyn | 14 |
| 7. | Asesiad o'r Ymgynghoriad | 14 |
| 8. | Casgliad | 15 |
| **Atodiadau** | | |
| 1. | Cofnodion Cyfarfod gyda Chorff Llywodraethu ac Aelodau o Staff Ysgol Gynradd Dolau | |
| 2. | Cofnodion Cyfarfod gyda Chyngor Ysgol, Ysgol Gynradd Dolau | |
| 3. | Ymateb Estyn | |
| 4. | Adborth gan y Pwyllgor Craffu – Addysg a Chynhwysiant | |

## 1. Y Cynnig

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf [y Cyngor] yn dymuno ceisio barn rhanddeiliaid ar y cynnig i sefydlu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd ar gyfer plant 3 i 11 oed yn rhan o ddatblygiad tai Llanilid a'r cynnig i newid cyfrwng iaith Ysgol Gynradd Dolau o ysgol sydd â dwy ffrwd iaith i ysgol cyfrwng Saesneg. Cynigir y bydd yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn agor erbyn blwyddyn academaidd 2027, gyda lle i 480 o ddisgyblion oedran ysgol statudol (dosbarth derbyn i flwyddyn 6), a chapasiti o 60 ar gyfer disgyblion oed meithrin. Bydd Ysgol Gynradd Dolau yn dod yn ysgol gynradd cyfrwng Saesneg ar yr un pryd, gyda chapasiti mwy o 488 ar gyfer disgyblion oed ysgol statudol (derbyn i flwyddyn 6), ynghyd â 63 o leoedd meithrin.

Mae'r cynnig yma'n cael ei wneud yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (Ail Argraffiad) (011/2018). Mae Adran 2.1 o God Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (Ail Argraffiad) (011/2018) yn cyfeirio at elfennau o drefniadaeth ysgolion sy'n gofyn am gyhoeddi cynigion, gan gynnwys:

- Agor ysgol a gynhelir.
- Gwneud newid a reoleiddir i ysgol a gynhelir

Mae'r rhesymau dros ystyried y cynnig penodol yma wedi'u hamlinellu'n llawn yn y Ddogfen Ymgynghori a'r Asesiadau o Effaith a gafodd eu dosbarthu i'r holl randdeiliaid. Mae'r ddolen i'r dogfennau yma isod:

Ymgynghoriad Ysgol Gynradd Cyfrwng Cymraeg Newydd | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (rctcbc.gov.uk)

## 2. Nod yr Adroddiad Ymgynghori

Caiff yr Adroddiad Ymgynghori yma ei lunio yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (Ail Argraffiad) (011/2018). Ei nod yw rhoi gwybod i'r rhanddeiliaid sydd wedi'u rhestru isod am ganlyniad yr ymgynghoriad a gafodd ei gynnal rhwng dydd Llun 9 Medi 2024 a 5pm ddydd Gwener 25 Hydref 2024.

## 3. Gyda phwy rydyn ni wedi ymgynghori?

Cafodd copi o'r Ddogfen Ymgynghori, a oedd yn rhoi'r holl wybodaeth am y cynnig, ei hanfon i'r rhanddeiliaid canlynol. Cafodd y Ddogfen Ymgynghori ei chyhoeddi hefyd ar wefan y Cyngor.

- Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Dolau
- Rhieni/gwarcheidwaid ac aelodau o staff Ysgol Gynradd Dolau
- Disgyblion Ysgol Gynradd Dolau
- Gwasanaeth Addysg ar y Cyd – Consortiwm Canolbarth y De
- Darparwyr Gofal Plant
- Partneriaeth Plant a Phobl Ifainc
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
- Partneriaeth Datblygu Addysg y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant
- Estyn
- Cyngor Cymuned Llanharan
- Aelodau Seneddol yr ardal
- Aelodau'r Senedd ac Aelodau Rhanbarthol y Senedd dros yr ardal

- Menter Iaith
- Mudiad Meithrin
- Cynghorau Cyfagos
- Y Comisiynydd Heddlu a Throseddu ar gyfer yr ardal
- Pwyllgor Craffu – Addysg a Chynhwysiant y Cyngor
- RhAG (Rhieni dros Addysg Gymraeg)
- Undebau llafur athrawon a staff
- Awdurdod yr Eglwys yng Nghymru ac Awdurdod Esgobaethol yr Eglwys Gatholig
- Comisiynydd y Gymraeg
- Gweinidogion Cymru

## 4. <u>Y Broses Ymgynghori</u>

Derbyniodd yr holl randdeiliaid sydd wedi’u nodi yn adran 3 ddolen a’u harweiniodd at gopïau electronig o'r Ddogfen Ymgynghori a'r Asesiadau Effaith. Mae'r tabl canlynol hefyd yn amlinellu'r cyfarfodydd a gafodd eu cynnal gyda'r Corff Llywodraethu, aelodau o staff a Chyngor Ysgol, Ysgol Gynradd Dolau, yn ogystal â sesiynau galw heibio a gafodd eu cynnal i roi cyfle i rieni/gwarcheidwaid a'r gymuned leol i gymryd rhan yn y broses ymgynghori.

| **Ysgolion fydd yn cael eu heffeithio** | **Cyfadran** | **Amser/Dyddiad** | **Lleoliad** |
|---|---|---|---|
| **Cyngor Ysgol** | | | |
| Ysgol Gynradd Dolau. | Cyngor Ysgol. | 1.30pm ddydd Iau 10 Hydref 2024 | Ysgol Gynradd Dolau. |
| **Corff Llywodraethu a Staff** | | | |
| Ysgol Gynradd Dolau. | Y Corff Llywodraethu ac aelodau o staff. | 3.45pm ddydd Llun 30 Medi 2024 | Ysgol Gynradd Dolau. |
| **Sesiwn galw heibio i'r cyhoedd** | | | |
| Rhieni/gwarcheidwaid ac aelodau o'r gymuned leol. | | 3pm tan 6pm ddydd Iau 10 Hydref 2024 | Ysgol Gynradd Dolau. |

Cafodd yr holl gyfarfodydd sydd wedi'u hamlinellu yn y tabl blaenorol eu cynnal wyneb yn wyneb.

Cafodd nodiadau eu cymryd yn ystod y cyfarfod gyda'r Corff Llywodraethu ac aelodau o staff Ysgol Gynradd Dolau, ac mae'r rhain wedi'u hatodi yn <u>*Atodiad 1 – Cofnodion Cyfarfod gyda Chorff Llywodraethu ac Aelodau o Staff Ysgol Gynradd Dolau*</u>. Mae'r nodiadau yma'n cofnodi'r cwestiynau a godwyd, y sylwadau a'r datganiadau a wnaed yn ystod y cyfarfodydd ynghyd â'r ymatebion a gafodd eu darparu lle bo'n briodol.

Cafodd nodiadau eu cymryd yn ystod y cyfarfod gyda Chyngor Ysgol, Ysgol Gynradd Dolau, ac mae'r rhain wedi'u hatodi yn <u>*Atodiad 2 – Cofnodion Cyfarfod gyda Chyngor Ysgol, Ysgol Gynradd Dolau*</u>. Mae'r nodiadau yma'n cofnodi'r cwestiynau a godwyd, y sylwadau a'r datganiadau a wnaed yn ystod y cyfarfodydd ynghyd â'r ymatebion a gafodd eu darparu lle bo'n briodol.

Cafodd sesiwn galw heibio ei threfnu hefyd er mwyn i aelodau o'r cyhoedd drafod y cynnig gyda Swyddogion o Gyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y Cyngor a rhoi

unrhyw adborth yn y sesiwn. Yn y sesiwn galw heibio yma, gofynnwyd i bawb gofnodi i mewn er mwyn cofnodi'r lefel bresenoldeb. Mae'r gofrestr presenoldeb yn nodi bod cyfanswm o chwe pherson wedi mynychu. Lle bo'n briodol, gofynnwyd i ymwelwyr lenwi a chyflwyno Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad.

## 5. Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

Mae’r ymatebion i’r cwestiynau a godwyd yng nghyfarfodydd y Corff Llywodraethu ac Aelodau o Staff a chyfarfod y Cyngor Ysgol wedi’u crynhoi yn y cofnodion sydd wedi'u hatodi yn Atodiadau 1 a 2, yn y drefn honno.

Derbyniwyd cyfanswm o 99 o ymatebion ysgrifenedig, roedd 4 ohonyn nhw'n ysgrifenedig/drwy e-bost a daeth y 95 ymateb arall drwy'r arolwg ar-lein. Roedd 50 (50.5%) o blaid y cynnig, roedd 37 (37.4%) yn erbyn y cynnig, roedd 10 (10.1%) yn ansicr a wnaeth 2 (2.1%) ddim nodi ateb. Mae hyn wedi'i grynhoi yn y tabl dilynol.

| **Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad** | | |
|---|---|---|
| **Penderfyniad** | **Nifer** | **%** |
| O blaid | 50 | 50.5 |
| Yn erbyn | 37 | 37.4 |
| Ddim yn siŵr | 10 | 10.1 |
| Dim ateb | 2 | 2.0 |
| **Cyfanswm** | **99** | **100.0** |

Yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (Ail Argraffiad (011/2018), ceir crynodeb o’r ymatebion ysgrifenedig a gafwyd yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad yn y tabl dilynol, ynghyd ag eglurhad (lle bo angen).

**I gadarnhau, mae'r holl ymatebion a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad yma ar gael i Aelodau Cabinet y Cyngor.**

| **Crynodeb o'r Ymatebion Ysgrifenedig** | |
|---|---|
| **Thema/Sylwadau** | **Eglurhad lle bo angen** |
| Mae wir angen lleoedd ychwanegol mewn ysgolion cynradd er mwyn diwallu'r angen a ddaw yn sgil y datblygiad tai. | Mae gan bob Awdurdod Lleol ddyletswydd statudol i gynllunio lleoedd ysgol priodol er mwyn sicrhau bod yr ysgolion cywir yn y lleoliadau cywir. Mae hyn wedi bod yn un o'r sbardunau ar gyfer datblygu'r cynnig yma.<br><br>O'r herwydd, er mwyn sicrhau bod modd bodloni'r galw am leoedd ysgol yn y dyfodol, y cynnig yw sefydlu Ysgol Gynradd cyfrwng Cymraeg newydd ar gyfer plant 3-11 oed yn rhan o ddatblygiad tai Llanilid a'r cynnig i newid cyfrwng iaith Ysgol Gynradd Dolau o ysgol sydd â dwy ffrwd iaith i Ysgol cyfrwng Saesneg. |
| Bydd darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ychwanegol yn helpu i gynyddu cyfleoedd i | Yn gyffredinol, cytunir bod dwyieithrwydd yn cynyddu dewis a chyfleoedd i bobl ifainc yn eu gyrfaoedd yn y dyfodol.<br>Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, sy'n fframwaith cyfreithiol ynghylch y defnydd o'r Gymraeg mewn gwasanaethau cyhoeddus, yn golygu bod rhaid i lawer o weithleoedd yng Nghymru gynnig gwasanaethau i'r cyhoedd yn ddwyieithog. Tan |

| | |
|---|---|
| ddisgyblion yng Nghymru ar ôl iddyn nhw adael yr ysgol. | yn ddiweddar, dim ond cyrff cyhoeddus oedd yn ofynnol i gydymffurfio â Mesur 2011. Serch hynny, yn fwy diweddar mae sefydliadau nad ydyn nhw'n cael eu hystyried yn gyrff cyhoeddus hefyd yn dod o dan ddarpariaethau Mesur y Gymraeg 2011. O'r herwydd, bydd cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg, nid yn unig yn Rhondda Cynon Taf ond ledled Cymru, yn arwain at gynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n gadael yr ysgol/cwblhau astudiaethau addysg bellach ac yn mynd i fyd gwaith yma yng Nghymru.<br><br>Bydd cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg o ganlyniad i gynyddu'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg hefyd yn cyfrannu at wireddu'r weledigaeth o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050, fel sydd wedi'i nodi yn nogfen Cymraeg 2050. |
| Byddai newid cyfrwng iaith Ysgol Gynradd Dolau i gyfrwng Saesneg yn creu mwy o gapasiti mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg ac ni fyddai'n helpu'r Cyngor i gyrraedd ei dargedau sydd wedi'u nodi yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSGA), ac yn ei dro targedau Llywodraeth Cymru, fel sydd wedi'i nodi yn nogfen Cymraeg 2050. | Rhaid i bob Cyngor yng Nghymru lunio CSGA. Dogfen gynllunio iaith tymor hir yw'r CSGA sy'n pennu'r cyfeiriad o ran cynllunio, cyflenwi a thwf strategol addysg cyfrwng Cymraeg ac addysgu'r Gymraeg fel pwnc. Nod y Cyngor trwy'r CSGA, a thrwy gynllunio strategol effeithiol a buddsoddi, yw cyfrannu'n sylweddol at gyflawni'r weledigaeth o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050 fel sydd wedi'i nodi yn nogfen Cymraeg 2050. |
| Cafodd pryderon eu codi am gapasiti ar gyfer darpariaeth addysg uwchradd cyfrwng Saesneg. | Mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i reoli capasiti ei ysgolion yn effeithiol. Mae lleoedd, capasiti, derbyn a rhagamcanion ysgolion yn cael eu craffu'n barhaus. Mae hwn yn gyfrifoldeb statudol a bydd yn parhau i gael ei adolygu'n rheolaidd. |
| Cafodd pryderon eu codi am anghofio hanes Ysgol Gynradd Dolau. | Bydd Ysgol Gynradd Dolau yn parhau. Mae'r cynnig yma i sefydlu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd ar gyfer plant 3 i 11 oed yn rhan o ddatblygiad tai Llanilid a'r cynnig i newid cyfrwng iaith Ysgol Gynradd Dolau o ysgol sydd â dwy ffrwd iaith i Ysgol Cyfrwng Saesneg.<br><br>Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, gallai Ysgol Gynradd Dolau a'r ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd weithio mewn partneriaeth er mwyn sicrhau nad yw hanes Ysgol Gynradd Dolau yn cael ei anghofio.<br><br>Dyma syniad gwych ar gyfer prosiect ysgol a'r gymuned a bydd hwn yn cael ei fwydo'n ôl i staff yr ysgol. |
| Gallai olygu, ar gyfer teuluoedd â mwy nag un plentyn, y gallai rhai plant fynd i'r ysgol gynradd | Dewis y rhiant/gwarcheidwad yw ysgol y plentyn. Caiff ceisiadau eu hymdrin â nhw yn unol â'r Cod Derbyn i Ysgolion 2013 Llywodraeth Cymru (005/2013), ac os yw hyn yn rhywbeth y mae |

| | |
|---|---|
| cyfrwng Cymraeg newydd, a gallai rhai fynd i Ysgol Gynradd Dolau, sy'n golygu bod nifer o achosion o ollwng a chasglu ar ddechrau ac ar ddiwedd y diwrnod ysgol. | rhieni/gwarcheidwaid ei eisiau ar gyfer eu plant, yna gallai hynny fod yn wir.<br>Serch hynny, bydd yr ysgolion yn agos at ei gilydd felly dylai unrhyw effaith fod yn fach iawn. |
| A ellid gwella Ysgol Llanhari. | Mae Ysgol Llanhari wedi'i chynnwys yn Rhaglen Amlinellol Strategol y Cyngor i dderbyn lefel sylweddol o fuddsoddiad trwy Raglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu Llywodraeth Cymru yn y blynyddoedd i ddod. Mae ymrwymiad i fuddsoddi yn yr ysgol eisoes wedi'i wneud gan Gabinet y Cyngor. |
| Mae'n dda cael darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg a Saesneg ar wahân. | Wedi'i nodi.<br><br>Bydd agor ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg benodedig newydd nid yn unig yn cynyddu'r cynnig addysg gynradd cyfrwng Cymraeg yn yr ardal ond hefyd yn diogelu lleoedd disgyblion addysg gynradd cyfrwng Cymraeg, nad yw'n wir mewn ysgol ddwyieithog lle mae modd i niferoedd cyfrwng Saesneg dyfu, a hynny ar draul y capasiti cyfrwng Cymraeg. |
| Mae'n dda gweld buddsoddiad mewn darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg. | Wedi'i nodi. |
| Da – dylai'r ysgol newydd fod yn un cyfrwng Cymraeg. | Wedi'i nodi. |
| A oes lleoedd dros ben mewn ysgolion cynradd eraill (cyfrwng Cymraeg a Saesneg) a allai gynnwys y disgyblion a grëwyd o ganlyniad i ddatblygiad tai Llanilid. | Mae lleoedd mewn ysgolion cyfagos eraill er nid yw'r ysgolion yma yn nalgylch y datblygiad newydd.<br><br>Mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i reoli capasiti ei ysgolion yn effeithiol. Mae lleoedd, capasiti, derbyn a rhagamcanion ysgolion yn cael eu craffu'n barhaus.<br><br>Rhaid cynnwys gwybodaeth am gapasiti pob ysgol sy'n cael ei heffeithio gan y cynnig ym mhob dogfen ymgynghori yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (Ail Argraffiad) (011/2018).<br><br>Mae gwybodaeth am gapasiti pob ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg sy'n cael ei heffeithio gan y cynnig wedi'i chynnwys yn y Ddogfen Ymgynghori. Mae gwybodaeth am gapasiti'r ardal gyfagos isod: |

| **2024 – CYBLD** | **Lleoedd Oedran Ysgol Gyfun** | **Disgyblion** | **Lleoedd dros ben** | **Nifer y Lleoedd Meithrin** | **Disgyblion Meithrin** |
|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Brynnau | 235 | 222 | 13 | 33 | 29 |
| Ysgol Gynradd Llanharan | 131 | 133 | -2 | 18 | 20 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Llanhari | 203 | 151 | 52 | 29 | 18 |
| Ysgol Gynradd Pont-y-clun | 480 | 372 | 108 | 68 | 44 |
| Ysgol Gynradd Tonysguboriau | 223 | 225 | -2 | 31 | 23 |

| | |
|---|---|
| Mae'r penderfyniad i sicrhau cyllid a chyrraedd y targedau a osodwyd yn CSGA y Cyngor, ac yn ei dro cyrraedd targedau sydd wedi'u nodi yn nogfen Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru, i'w gweld yn ysgogydd arwyddocaol ar gyfer y cynnig. | Mae'r rhesymeg dros y cynnig wedi'i gynnwys yn y dogfennau ymgynghori. Serch hynny, cydnabyddir y bydd y cynnig yma'n cefnogi'r gwaith o gyflawni llawer o amcanion strategol yn llwyddiannus – rhai ohonyn nhw'n ymwneud â'r targedau a gaiff eu nodi yn CSGA y Cyngor a dogfen Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru. |
| Mae cost sylweddol ynghlwm wrth y cynnig i adeiladu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd. | Oes, ond mae'r Cyngor yn ystyried y buddsoddiad parhaus mewn addysg fel deilliant cadarnhaol.<br><br>Bydd y Cyngor yn defnyddio cyllid yr Ardoll Seilwaith Cymunedol (ASC) i gyfrannu at y rhan fwyaf o gost yr ysgol newydd, a fydd, ynghyd â chyllid gan Lywodraeth Cymru drwy’r Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu, yn ariannu’r prosiect yma. Bydd Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru yn ariannu hyd at 65.0% o gostau'r prosiect, a hyd at 100% o'r costau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â sicrhau bod yr ysgol yn bodloni safonau Carbon Sero-Net.<br><br>Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, bydd costau manwl ar gyfer darparu'r ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd ynghyd â rhai addasiadau ar raddfa fach i gynyddu'r capasiti yn Ysgol Gynradd Dolau yn cael eu datblygu. |
| Mae'r cynnig yma'n gwneud synnwyr. Mae wir angen capasiti ychwanegol ar Ysgol Gynradd Dolau i ateb galw datblygiad tai Llanilid. | Bydd y cynnig yn sicrhau bod y galw cynyddol am leoedd disgyblion cynradd cyfrwng Cymraeg a Saesneg, o ganlyniad i ddatblygiad tai Llanilid, yn cael ei fodloni. |
| Dylai rhieni/gwarcheidwaid gael cynnig dewis am yr ysgol newydd. | Nod yr ymgynghoriad yw ceisio barn rhanddeiliaid ar y cynnig er mwyn sicrhau bod pawb yn cael cyfle i ddweud eu dweud a chymryd rhan yn y broses ymgynghori.<br><br>Dewis y rhiant/gwarcheidwad yw ysgol y plentyn. Byddwn ni'n ymdrin â cheisiadau yn unol â chod Derbyn Disgyblion i Ysgolion Llywodraeth Cymru (005/2013/8). |
| Byddai'n rhaid i ddisgyblion sy'n dewis cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg symud i ysgol newydd a gallai hyn amharu ar eu haddysg. | Mae disgwyl na fydd y newidiadau arfaethedig yn cael effaith andwyol hirdymor ar ddisgyblion, mae'r wybodaeth yma wedi'i chynnwys yn y dogfennau ymgynghori.<br><br>Rydyn ni'n deall y bydd rhai disgyblion efallai'n teimlo'n bryderus ar y dechrau am y posibilrwydd o symud i ysgol newydd ar safle newydd. Serch hynny, pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, bydd |

| | |
|---|---|
| | cymorth wedi'i dargedu ar gyfer yr holl ddisgyblion o Ysgol Gynradd Dolau. Mae proses bontio cadarnhaol ac ystyrlon yn rhan allweddol o sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu yn eu hysgol newydd heb darfu ar eu lles a'u haddysg. Caiff hyn ei gefnogi trwy ddarparu cymorth academaidd a bugeiliol effeithiol a chyfleoedd strwythuredig er mwyn i ddisgyblion ymgyfarwyddo ag amgylchedd newydd yr ysgol ac aelodau o staff.<br><br>Bydd cyngor a chefnogaeth yn cael ei ddarparu gan y Cyngor i staff o Ysgol Gynradd Dolau ac Ysgol Gymuned Tonyrefail i sicrhau bod y broses bontio mor llyfn a di-dor â phosibl.<br><br>Mae Carfan Trochi yn y Gymraeg y Cyngor yn darparu cymorth i ddisgyblion sy'n dewis symud i addysg cyfrwng Cymraeg o addysg cyfrwng Saesneg. Bydd y cymorth yma ar gael i unrhyw ddisgyblion sy'n dymuno ei ddefnyddio a bydd y Cyngor yn sicrhau bod adnoddau digonol yn y garfan i gefnogi'r holl ddisgyblion sy'n dymuno trosglwyddo. |
| Dylai dalgylch yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd gynnwys plant sy'n byw yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. | Bydd derbyniadau i'r ysgol newydd, fel gyda phob ysgol, yn cael eu hymdrin â nhw yn unol â'r Cod Derbyn i Ysgolion statudol; ac yn unol â'r ddeddfwriaeth yma, os oes lle, mae modd i ddisgyblion 'o du allan y sir' fynychu ysgolion yn Rhondda Cynon Taf. |
| Dylai'r ysgol newydd fod yn ysgol ddwyieithog.<br><br>Hoffai Ysgol Gynradd Dolau aros yn ysgol ddwyieithog.<br><br>Byddai'n well i'r cynnig fod yn estyniad i Ysgol Gynradd Dolau – yn unol â'r ymgynghoriad trefniadaeth ysgolion statudol cychwynnol. | Bydd agor ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg benodedig newydd nid yn unig yn cynyddu'r cynnig addysg gynradd cyfrwng Cymraeg yn yr ardal ond hefyd yn diogelu'r lleoedd hynny i ddisgyblion addysg gynradd cyfrwng Cymraeg, nad yw'n wir mewn ysgol ddwyieithog.<br><br>Yn ogystal â hyn, pe bai'r ysgol newydd yn ysgol gynradd ddwyieithog, fyddai'r Cyngor ddim yn cyrraedd ei dargedau sydd wedi'u nodi yn y CSGA nac yn cyfrannu at gyflawni'r weledigaeth o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050, fel sydd wedi'i nodi yn nogfen Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru. |
| Dylai'r ysgol newydd fod yn ysgol cyfrwng Saesneg. | Mae twf mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn darged strategol i Lywodraeth Cymru a'r Cyngor. Pe bai'r ysgol newydd yn ysgol gynradd cyfrwng Saesneg, fyddai'r Cyngor ddim yn cyrraedd ei dargedau sydd wedi'u nodi yn y CSGA nac yn cyfrannu'n sylweddol at gyflawni'r weledigaeth o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050, fel sydd wedi'i nodi yn nogfen Cymraeg 2050. |
| Ni roddir pwys cyfartal i gyfran y ffrydiau addysg cyfrwng Cymraeg a Saesneg mewn ysgolion dwyieithog. | Er mwyn darparu ar gyfer dewis rhieni/gwarcheidwaid a chydymffurfio â Chod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru 2013 (005/2013), gall nifer y disgyblion sy'n cael mynediad at addysg cyfrwng Saesneg arwain at lai o gapasiti cyfrwng Cymraeg nad oes modd ei ddiogelu o dan y Cod a nodwyd uchod mewn ysgolion dwy iaith. |

| | |
|---|---|
| Gallai hyn gael effaith negyddol ar aelodau o staff sy'n dewis addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg gan y byddai'n rhaid iddyn nhw ymgeisio am swydd yn yr ysgol newydd. | Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, ein bwriad yw argymell i Gorff Llywodraethu dros dro yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd arfaethedig a Chorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Dolau, fod unrhyw swyddi ychwanegol sydd eu hangen o ganlyniad i sefydlu'r ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd ac Ysgol Gynradd Dolau yn dod yn ysgol gynradd cyfrwng Saesneg, islaw lefel uwch arweinwyr, yn cael eu clustnodi i'r staff presennol a gaiff eu cyflogi yn Ysgol Gynradd Dolau yn y lle cyntaf. Mae'r broses yma'n golygu y byddai staff Ysgol Gynradd Dolau yn cael y cyfle cyntaf i wneud cais am swyddi ychwanegol, cyn i unrhyw swyddi gael eu hysbysebu'n allanol. Os byddan nhw'n llwyddiannus, bydden nhw'n trosglwyddo pan fydd y cynnig yn cael ei roi ar waith.<br><br>Mae gan y Cyngor bolisïau a gweithdrefnau Adnoddau Dynol cadarn a fydd yn rhoi sicrwydd i staff a chyflogwyr ynglŷn â rheoli newid sefydliadol. Bydd Carfan Adnoddau Dynol y Cyngor yn ymweld â phob aelod o staff Ysgol Gynradd Dolau a'u gwneud nhw i gyd yn effro i'r prosesu sydd ar ddod a'r holl gymorth sydd ar gael. |
| Pa gyfleusterau a rennir fydd rhwng Ysgol Gynradd Dolau a'r ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd? | Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, bydd yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn agos iawn at Ysgol Gynradd Dolau bresennol. O'r herwydd, bydd potensial i rannu cyfleusterau yn y ddwy ysgol.<br><br>Mae cynlluniau ar gyfer yr ysgol newydd yn cynnwys ardal gemau aml-ddefnydd, cae 3G yn ogystal â neuadd fawr. Bydd y trefniadau ar gyfer rhannu cyfleusterau yn gyfrifoldeb y ddau Gorff Llywodraethu. |
| Bydd yn creu cyfleoedd gwaith ychwanegol yn yr ardal leol. | Wrth i niferoedd y ddwy ysgol gynyddu o ganlyniad i'r datblygiad tai, yna bydd, bydd angen mwy o staff i ddarparu ar gyfer y disgyblion ychwanegol. |
| Dylid darparu'r cymorth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a gaiff ei ddarparu i blant yn Ysgol Gynradd Dolau i'r disgyblion hynny sy'n mynychu'r ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd. | Bydd pob disgybl ADY yn parhau i dderbyn cymorth. Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn darparu canllawiau manwl ar ddyletswyddau a chyfrifoldebau Cynghorau wrth ddiwallu ADY plant a phobl ifainc. Mae gan blant a phobl ifainc Anghenion Dysgu Ychwanegol os oes gyda nhw anhawster dysgu sy'n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol ar eu cyfer.<br><br>Mae Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru (2021) yn argymell bod lleoliadau'r Blynyddoedd Cynnar ac ysgolion yn rhoi ymateb graddedig ar waith o ran diwallu'r anghenion yma. Mae ymateb graddedig yn golygu bod modd cyflwyno rhagor o arbenigedd a rhagor o gymorth er mwyn mynd i'r afael ag anawsterau y mae plentyn neu unigolyn ifanc yn eu hwynebu. Dylid gwneud darpariaeth ychwanegol neu wahanol gan ddibynnu ar ddifrifoldeb lefel angen y plentyn/person ifanc. |

| | |
|---|---|
| | Nid oes unrhyw Ddosbarthiadau Cynnal Dysgu yn Ysgol Gynradd Dolau. Mae gan Ysgol Gynradd Dolau 12 o ddisgyblion ag ADY, ac nid oes gan yr un ohonyn nhw anghenion corfforol. Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, bydd cymorth i ddisgyblion a gaiff ei ddarparu gan garfan Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant y Cyngor yn parhau a fydd hyn ddim yn cael effaith ar ddisgyblion presennol a newydd sy'n derbyn cymorth |
| A fydd Cylch Meithrin wedi'i gydleoli ar safle'r ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd. | Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, bydd y Cyngor yn ceisio sefydlu Cylch Meithrin newydd wedi'i gydleoli ar safle'r ysgol, gyda'r ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd i gynnig sesiynau Cylch Meithrin cyn ysgol i blant dwy i dair oed. Rhagwelir y bydd sefydlu Cylch Meithrin newydd wedi'i gydleoli ar safle'r ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn annog niferoedd disgyblion i dyfu. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod yr iaith yn ddi-dor o safbwynt addysg cyfrwng Cymraeg i blant rhwng 2 ac 11 oed ar un safle ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg. |
| Dylai'r ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd gynnig clwb brecwast a chlybiau ar ôl ysgol i ddarparu gofal cofleidiol er mwyn cynorthwyo rhieni/gwarcheidwaid sy'n gweithio. | Mae Ysgol Gynradd Dolau yn cynnal clwb brecwast. Mae'r clwb brecwast yn Ysgol Gynradd Dolau yn boblogaidd iawn ac mae tua 84* o ddisgyblion yn derbyn brecwast yno bob dydd. **Data yn seiliedig ar ffigurau ers mis Medi 2024.*<br><br>Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, bydd y clwb brecwast yn Ysgol Gynradd Dolau yn parhau a bydd yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd hefyd yn cynnal clwb brecwast.<br><br>Cyfrifoldeb yr ysgolion unigol yw darparu clybiau brecwast ac er eu bod nhw'n ddarpariaethau pwysig, dylid nodi nad yw gweithgareddau cyn ysgol nac ar ôl ysgol yn ofyniad statudol.<br><br>Ar hyn o bryd, mae Ysgol Gynradd Dolau yn cynnal ystod o weithgareddau allgyrsiol gan gynnwys rygbi, criced, hoci, pêl-rwyd a Chlwb Chwaraeon yr Urdd. Yn ogystal â hyn, mae ystod o bwyllgorau wedi'u sefydlu yn yr ysgol gan gynnwys Cyngor Ysgol, Cyngor Eco, Arweinwyr Digidol yn y Dolau, Carfan Les, Dreigiau Dolau a Chyngor Chwaraeon.<br><br>Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, bydd gweithgareddau allgyrsiol yn Ysgol Gynradd Dolau yn parhau a'r disgwyliad yw y bydd yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd hefyd yn cynnal gweithgareddau allgyrsiol. Yn yr un modd, bydd pwyllgorau'r ysgol yn parhau a bydd yr ysgol gynradd Gymraeg newydd yn cael ei hannog a'i chefnogi i sefydlu'r un peth. |
| A fydd galw am ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg ychwanegol. | Yn wyneb y datblygiadau tai yn yr ardal ac er mwyn darparu capasiti i ddarparu ar gyfer y galw am leoedd disgyblion yn yr ardal yma, cynigir bod ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn cael ei hagor a bod Ysgol Gynradd Dolau yn dod yn ysgol cyfrwng Saesneg i alluogi addysg cyfrwng Saesneg a Chymraeg yn y rhan yma o’r Fwrdeistref Sirol i dyfu a sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswydd statudol i ddarparu digon o leoedd ysgol. |

| | |
|---|---|
| | Mae'r rhan yma o'r Fwrdeistref Sirol yn debygol o gael ei dynodi'n safle strategol yn y Cynllun Datblygu Lleol sy'n cael ei ddatblygu, a phe bai'r ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yma'n cael ei hadeiladu, bydd yn diogelu addysg cyfrwng Cymraeg yr ardal yn y dyfodol yn y tymor hir, ac yn darparu ar gyfer unrhyw ddatblygiadau tai newydd yn y dyfodol. |
| A fydd modd i Garfan Trochi yn y Gymraeg y Cyngor ddarparu cymorth i'r holl ddisgyblion sy'n dewis symud i addysg cyfrwng Cymraeg o addysg cyfrwng Saesneg? | Mae Carfan Trochi yn y Gymraeg y Cyngor yn darparu cymorth i ddisgyblion sy'n dewis symud i addysg cyfrwng Cymraeg o addysg cyfrwng Saesneg. Bydd y cymorth yma ar gael i unrhyw ddisgyblion sy'n dymuno ei ddefnyddio a bydd y Cyngor yn sicrhau bod adnoddau digonol yn y garfan i gefnogi'r holl ddisgyblion sy'n dymuno trosglwyddo.<br><br>Unwaith y bydd yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn agor ac Ysgol Gynradd Dolau yn dod yn ysgol gynradd cyfrwng Saesneg, bydd lle yn yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd ar gyfer unrhyw ddisgyblion yn Ysgol Gynradd Dolau sy'n dymuno mynychu'r ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn lle parhau gydag addysg cyfrwng Saesneg yn Ysgol Gynradd Dolau. |
| Byddai'r cynnig yma'n helpu'r Cyngor i gyrraedd ei dargedau sydd wedi'u nodi yn y CSGA, ac yn ei dro helpu i gyrraedd targedau Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru. | Wedi'i nodi.<br><br>Rhaid i bob Cyngor yng Nghymru lunio CSGA. Dogfen gynllunio iaith tymor hir yw'r CSGA sy'n pennu'r cyfeiriad o ran cynllunio, cyflenwi a thwf strategol addysg cyfrwng Cymraeg ac addysgu'r Gymraeg fel pwnc. Nod y Cyngor trwy'r CSGA, a thrwy gynllunio strategol effeithiol a buddsoddi, yw cyfrannu'n sylweddol at gyflawni'r weledigaeth o filiwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050, fel sydd wedi'i nodi yn nogfen Cymraeg 2050. |
| Hoffwn weld Asesiad o'r Effaith ar Draffig yn cael ei gynnal ar gyfer y ddwy ysgol. | Yn rhan o'r gwaith dylunio manwl sydd ei angen i adeiladu'r ysgol newydd, bydd Asesiad o'r Effaith ar Draffig yn cael ei gynnal. Serch hynny, er gwaethaf hyn, mae Cynllun Teithio ac Asesiad Llwybrau Diogel yn y Gymuned eisoes wedi'u cynnal gan y datblygwr tai ar gyfer yr ardal ddatblygu ehangach sy'n cwmpasu lleoliad yr ysgol newydd. Mae'r dogfennau yma ar gael ar y tudalennau Cynllunio ar wefan y Cyngor. |
| Hoffwn weld buddsoddiad yn Ysgol Gynradd Dolau ochr yn ochr â'r ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd. | Bydd rhai addasiadau ar raddfa fach i gynyddu'r capasiti yn Ysgol Gynradd Dolau yn cael eu datblygu ochr yn ochr â'r broses ymgynghori a chaiff cymeradwyaeth ei cheisio yn unol â gweithdrefnau penderfynu'r Cyngor.<br><br>Mae Ysgol Gynradd Dolau wedi derbyn buddsoddiad sylweddol i gyflwyno'r estyniad a'r neuaddau, sydd wedi bod yn boblogaidd iawn. Yn ogystal â hyn, mae darpariaeth gofal plant ddwyieithog newydd wedi'i sefydlu ar safle'r ysgol ynghyd â gwelliannau i rai darpariaethau sylfaen dysgwyr presennol gan ddefnyddio cyllid o Grant Cyfalaf Gofal Plant Llywodraeth Cymru. |

Yn unol â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 ac yn unol â rhwymedigaethau statudol y Cyngor, roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys y cwestiynau canlynol:

1. Ydych chi o'r farn y gallai'r cynnig effeithio ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg (Cadarnhaol neu Negyddol)?
2. Ydych chi o'r farn bod y cynnig mewn unrhyw ffordd yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?
3. Sut byddai modd cynyddu effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol ar y Gymraeg?

Mae'r tabl canlynol yn rhoi crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd gan yr ymatebwyr a atebodd y cwestiynau. O ganlyniad i'r ymatebion a dderbyniwyd, bydd yr Asesiad o’r Effaith ar y Gymraeg sy'n dod law yn llaw â'r cynnig yn cael ei ddiweddaru yn ôl yr angen.

<table>
<tr><th colspan="9">Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015: Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad</th></tr>
<tr><th rowspan="3">Cwestiynau</th><th colspan="8">Atebion</th></tr>
<tr><th colspan="2">Yn negyddol</th><th colspan="2">Yn gadarnhaol</th><th colspan="2">Dim effaith</th><th colspan="2">Ddim yn gwybod</th></tr>
<tr><th>Nifer</th><th>%</th><th>Nifer</th><th>%</th><th>Nifer</th><th>%</th><th>Nifer</th><th>%</th></tr>
<tr><td>Ydych chi o'r farn y gallai'r cynnig effeithio ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg?</td><td>21</td><td>22.6</td><td>47</td><td>50.5</td><td>13</td><td>12.9</td><td>12</td><td>12.9</td></tr>
<tr><td rowspan="3">Ydych chi o'r farn bod y cynnig mewn unrhyw ffordd yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?</td><th colspan="2">Nac ydy</th><th colspan="3">Ydy</th><th colspan="3">Ddim yn gwybod</th></tr>
<tr><th>Nifer</th><th>%</th><th colspan="2">Nifer</th><th>%</th><th colspan="2">Nifer</th><th>%</th></tr>
<tr><td>56</td><td>64.3</td><td colspan="2">18</td><td>20.7</td><td colspan="2">13</td><td>14.9</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Sut byddai modd cynyddu effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol ar y Gymraeg?</td><th colspan="2">Cynyddu Effeithiau Cadarnhaol</th><th colspan="3">Lleihau Effeithiau Negyddol</th><th colspan="3">Ddim yn siŵr</th></tr>
<tr><td colspan="2">• Bydd hyn yn creu lleoedd i ddisgyblion mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg a Saesneg i adlewyrchu'r rhagamcanion presennol a'r dyfodol.<br>• Byddai’n fwy cadarnhaol pe bai Ysgol</td><td colspan="3">• Dim rhesymau pam y dylai addysg cyfrwng Cymraeg fod dan anfantais.<br>• Dydw i ddim yn gweld unrhyw beth negyddol, yr unig beth sy'n cael ei weld yn negyddol efallai yw gwahanu disgyblion sy'n siarad Saesneg a</td><td colspan="3">• Nid wyf yn credu y bydd agor ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg, lle nad oes galw clir ar hyn o bryd, yn cynyddu diddordeb pobl yn y Gymraeg yn awtomatig.</td></tr>
</table>

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Gynradd Dolau yn parhau'n ysgol gynradd ddwyieithog.<br>• Defnydd y gymuned o gyfleusterau ysgol a gweithgareddau ar ôl ysgol trwy gyfrwng y Gymraeg.<br>• Mwy o gefnogaeth i rieni/gwarcheidwaid di-Gymraeg sydd am anfon eu plant i ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg. | disgyblion sy'n siarad Cymraeg. | |

Yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, mae gyda'r Cyngor ddyletswydd gyfreithiol i ystyried sut mae ei benderfyniadau yn effeithio ar bobl oherwydd efallai bod nodweddion penodol gyda nhw. Felly yn rhan o'r gwaith o geisio barn ar y cynnig, roedd yr ymgynghoriad hefyd yn cynnwys y cwestiwn canlynol:

1. Sut byddai'r cynnig yn effeithio arnoch chi o safbwynt y canlynol:

- Rhyw
- Oedran
- Ethnigrwydd
- Anabledd
- Rhywioldeb
- Crefydd neu gred
- Hunaniaeth rhywedd:
- Statws perthynas
- Beichiogrwydd
- Iaith o'ch dewis

O'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn yma, dywedodd y mwyafrif, 65.7%, na fyddai'r cynnig yn cael unrhyw effaith ar unrhyw un o'r nodweddion a gaiff eu rhestru. Tra bod 28.1% wedi nodi y byddai'r cynnig yn cael effaith ar y nodwedd 'Iaith o'ch dewis', dywedodd 3.1% y byddai'r cynnig yn cael effaith ar y nodwedd 'Anabledd' ac, unwaith eto, dywedodd 3.1% y byddai'r cynnig yn cael effaith ar y nodwedd 'Statws Perthynas'.

## 6. Ymateb Estyn

Yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (Ail Argraffiad) (011/2018), mae'r ymateb i'r cynnig gan Estyn wedi'i ddarparu'n llawn yn *Atodiad 3 – Ymateb Estyn*. Dydy Estyn ddim yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru 2018 (011/2018) ac nid yw'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion

2013 yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig.

Ystyriodd Estyn fod y cynnig yn debygol o gynnal y safonau addysgol presennol yn yr ardal.

Yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (Ai Argraffiad) (011/2018), mae'r meysydd ymateb gan Estyn sy'n gofyn am eglurhad wedi'u nodi yn y tabl dilynol.

| **Ymateb Estyn** | |
|---|---|
| **Ymateb Estyn** | **Eglurhad** |
| Mae'r cynnig yn ystyried yn eithaf da'r effaith y gallai'r cynnig ei chael ar ansawdd y ddarpariaeth a'r deilliannau i ddisgyblion ar gyfer y ddwy ysgol. Serch hynny, dim ond o ran effaith adeilad mwy newydd sydd ag adnoddau gwell y mae'n gwneud hyn. | Mae Ysgol Gynradd Dolau yn ysgol ragorol, fel y dangoswyd gan ganlyniad arolygiad Estyn a gynhaliwyd yn 2023.<br><br>Mae'r adroddiad arolygu llawn sy'n rhoi gwybodaeth am ansawdd y ddarpariaeth a'r deilliannau ar gyfer disgyblion ar gael ar wefan Estyn |
| Mae'r cynnig yn nodi'n unig y bydd costau manwl ar gyfer darparu'r ysgol newydd a rhai addasiadau ar raddfa fach i gynyddu'r capasiti yn Ysgol Gynradd Dolau yn cael eu datblygu ochr yn ochr â'r broses ymgynghori. | Bydd y Cyngor yn defnyddio cyllid Ardoll Seilwaith Cymunedol i gyfrannu at y rhan fwyaf o gost yr ysgol newydd, a fydd, ynghyd â chyllid gan Lywodraeth Cymru drwy'r Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu, yn ariannu'r prosiect yma. Bydd Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru yn ariannu hyd at 65.0% o gostau'r prosiect, a hyd at 100% o'r costau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â sicrhau bod yr ysgol yn bodloni safonau Carbon Sero-Net.<br><br>Nid yw costau manwl y ddwy elfen fuddsoddi, h.y. adeiladu'r ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd ynghyd â rhai addasiadau ar raddfa fach i gynyddu'r capasiti yn Ysgol Gynradd Dolau, wedi'u datblygu'n llawn eto, a phe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, bydd y gwaith hwn yn parhau o ddifrif. |

## 7. Asesiad o'r Ymgynghoriad

Yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (Ail Argraffiad (011/2018), rydyn ni wedi cynnal asesiad pellach o'r cynnig. Roedd hyn yn cynnwys adolygiad ar yr un materion a gafodd eu hasesu wrth lunio'r cynnig, yn ogystal â rhoi ystyriaeth i'r ymatebion a dderbyniwyd yn rhan o'r ymgynghoriad.

Ar ôl ystyriaeth bellach o'r cynnig, ac ar ôl ystyried yr ymatebion a dderbyniwyd, y casgliad yw mai'r cynnig yma yw'r opsiwn mwyaf addas ac felly does dim newidiadau wedi'u gwneud i'r cynnig.

## 8. Casgliad

Does dim o'r wybodaeth sydd wedi'i rhoi ger bron pawb yn ystod yr ymgynghoriad wedi golygu bod angen newid y Ddogfen Ymgynghori, ac felly mae'r wybodaeth yn y ddogfen yn parhau i fod yr un peth. Felly, caiff ei ystyried y dylid rhoi'r cynnig yma ar waith, heb unrhyw newidiadau iddo.

Argymhelliad yr adroddiad yma yw y dylai Hysbysiad Statudol gael ei gyhoeddi i adlewyrchu'r cynnig yn unol â'r ymgynghoriad heb newidiadau, er mwyn mynd â'r cynnig yma yn ei flaen.